THE NATIONAL LOTTERY

# Wythnos Agored

# Llawlyfr Cynnig

# Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol

## Geirfa

**Cynnig**: profiad arbennig, gostyngiad neu gyfle mynediad yn eich lleoliad

**Dangosfwrdd**: y lle i reoli eich cyfrif ac ychwanegu/golygu cynigion

**Cofrestru**: creu cyfrif i gymryd rhan

**Cyflwyno**: anfon eich cynnig at dîm Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol i'w adolygu

**Rhestru**: y ffordd y dangosir eich cynnig ar wefan Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol

**Cyhoeddus**: pan fo eich cynnig yn weladwy i'r cyhoedd ar NationalLotteryOpenWeek.com

**Byw**: pan fo eich cynnig yn weladwy i'r cyhoedd ar NationalLotteryOpenWeek.com

**Trysor cudd**: stori unigryw, hwyliog neu annisgwyl sy'n rhan o'ch lleoliad neu sy'n gysylltiedig ag ef. Gallai hyn fod yn unigolyn, lle, gweithgaredd neu wrthrych. Efallai y bydd tîm Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol yn tynnu sylw at y trysorau hyn i annog y cyhoedd i ddarganfod ac ymgysylltu â'ch cynnig.

# Rhestr Wirio Cam wrth Gam

Diolch am fod yn rhan o Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol!

Mae'n wych cael cymaint o brosiectau anhygoel a ariennir gan y Loteri Genedlaethol yn dod ynghyd i ddweud 'diolch' wrth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am eu cefnogaeth. Rydym wedi llunio rhestr wirio fel eich bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl ac i'ch helpu i gynllunio.

## Beth ddylen ni ei wneud gyntaf?

### Dylech ymgyfarwyddo'ch hunan â'r Cwestiynau Cyffredin isod.

Os oes unrhyw beth nad ydych yn dal yn siŵr amdano, cysylltwch drwy anfon e-bost at ThanksToYou@lotterygoodcauses.org.uk.

### Cofrestrwch ar-lein i gymryd rhan ar NationalLotteryOpenWeek.com a chreu dangosfwrdd eich sefydliad.

Dylech wneud hyn hyd yn oed os nad ydych yn siŵr eto beth fydd eich cynnig arbennig. Drwy gofrestru, byddwn yn gwybod eich bod yn awyddus i gymryd rhan. Bydd hefyd yn creu eich 'dangosfwrdd' fel y gallwch fewngofnodi eto ar unrhyw adeg i greu eich cynnig neu lawr lwytho deunyddiau marchnata a hyrwyddo.

### Meddyliwch am yr hyn fydd eich cynnig arbennig.

Os oes angen ychydig o ysbrydoliaeth arnoch, mae gennym rai enghreifftiau o'r hyn y mae eraill wedi'i wneud mewn blynyddoedd blaenorol yn ein Canllaw Lleoliadau, y gallwch ei lawr lwytho o'r dangosfwrdd. Gall eich cynnig fod yn gwbl unigryw ac wedi'i deilwra i'ch sefydliad.

### Meddyliwch am yr hyn y byddwch ei angen o bosibl i baratoi i gynnal eich cynnig.

Dyma ychydig o gwestiynau y byddwch o bosibl yn hoffi eu hystyried:

- A oes angen i ymwelwyr archebu o flaen llaw?
- Os oes, a allant wneud hyn drwy'ch system archebu bresennol gyda chod arbennig, neu efallai y byddwch eisiau creu tudalen Eventbrite (neu debyg)?
- A oes unrhyw delerau ac amodau penodol y mae angen i'ch ymwelwyr fod yn ymwybodol ohonynt?
- Mae gennym set safonol o Delerau ac Amodau ar gyfer pob cynnig – a nodir isod – ond efallai y bydd rhai telerau penodol yr hoffech eu cynnwys.

# A Step-By-Step Checklist

**Dechreuwch ychwanegu manylion eich cynnig trwy eich dangosfwrdd.**

Unwaith y byddwch wedi cofrestru, gallwch fynd yn ôl i'ch dangosfwrdd ar unrhyw adeg a dechrau ychwanegu manylion eich cynnig.

Byddwch yn gallu cadw'r manylion wrth fynd yn eich blaen, ac ni fydd eich cynnig yn cael ei gyhoeddi nes i chi glicio 'cyflwyno'.

## DAU FIS I FYND | RYDYM YN AGOSÁU!

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cwblhau a 'chyflwyno' eich cynnig drwy'ch dangosfwrdd os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny. Unwaith y byddwch wedi cyflwyno'ch cynnig, byddwn yn ei adolygu â llaw. Gall hyn gymryd diwrnod neu ddau.

## CHWE WYTHNOS I FYND | RYDYM BRON YNO!

Bydd y wefan rhestrau – www.NationalLotteryOpenWeek.com – yn mynd yn fyw ychydig fisoedd cyn Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol, fel y gallwn ddechrau rhoi gwybod i'r cyhoedd am yr holl gynigion a phrosiectau gwych sy'n cymryd rhan. Bydd pob cynnig a gyflwynwyd ac a adolygwyd yn gyhoeddus ar y pwynt hwn.

Byddwn yn cysylltu â chi tua wythnos cyn i hyn ddigwydd i sicrhau bod eich cynnig yn gywir, yn unol â'r protocol canslo.

Byddwn hefyd wedi paratoi rhai deunyddiau a chanllawiau i'ch helpu i hyrwyddo'ch cynnig, a fydd ar gael i'w lawr lwytho o'ch dangosfwrdd. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd y rhain ar gael.

Bydd y rhain yn cynnwys: datganiad i'r wasg drafft, templed poster a rhai asedau digidol i chi eu defnyddio ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a'ch gwefan.

## UN MIS I FYND | DECHRAU DWEUD WRTH BOBL!

Dechreuwch siarad am eich cynnig ar gyfer Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol neu yn eich cylchlythyr.

Cadwch lygad ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y Loteri Genedlaethol a'r dosbarthwyr am gynnwys y gallwch ei ail-bostio a'i rannu gyda'ch ffrindiau a'ch dilynwyr.

# A Step-By-Step Checklist

Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol yw:

- Facebook: Lottery Good Causes
- Instagram: @NationalLotteryGoodCauses
- X: @LottoGoodCauses
- LinkedIn: National Lottery Promotions Unit
- TikTok: @nationalotterygoodcauses

**Rhowch wybod i'ch cyfryngau lleol eich bod yn cymryd rhan.**

Dylai'r templed o ddatganiad i'r wasg helpu.

**Briffiwch eich staff a'ch gwirfoddolwyr cyn i'r ymgyrch ddechrau.**

- Faint o gyllid y Loteri Genedlaethol ydych chi wedi'i dderbyn?
- Beth ydych chi wedi gallu'i wneud oherwydd y cyllid?
- Pam mae eich sefydliad yn cymryd rhan yn yr Wythnos Agored?

**WYTHNOS AGORED Y LOTERI GENEDLAETHOL | MAE YMA!**

Cynhaliwch gynnig arbennig gwych ar gyfer Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol!
Mwynhewch a chysylltwch â chynulleidfaoedd newydd.
Mesurwch nifer eich ymwelwyr neu'r rhai sy'n manteisio ar y cynnig yn ystod cyfnod yr ymgyrch.
Postiwch ddigonedd o luniau ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio #DiolchIChi, ac annog eich ymwelwyr i wneud yr un peth.

**MAE DROSODD!**

Da iawn chi a diolch am fod yn rhan o Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol 2026!

Mae Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol yn ffordd wych o ddweud diolch wrth y chwaraewyr sy'n codi £30 miliwn bob wythnos tuag at achosion da fel eich un chi. Gobeithiwn, drwy'r wythnos, eich bod wedi tyfu eich sianeli cyfryngau cymdeithasol, ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd a chroesawu'ch cefnogwyr blaenorol yn ôl. Byddwn yn anfon arolwg byr atoch o fewn yr wythnos i ddarganfod sut aeth eich cynnig.

Ni ddylai hyn gymryd mwy na 5 munud i'w gwblhau ac mae'n ein helpu i olrhain sut mae'r ymgyrch yn perfformio flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn ogystal â gweld cyfleoedd i wella yn y dyfodol.

# Cwestiynau Cyffredin

Rydym wedi llunio ychydig o Gwestiynau Cyffredin i helpu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych o bosibl. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol, anfonwch e-bost at ThanksToYou@lotterygoodcauses.org.uk

01) Beth yw Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol?

02) A yw Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol yr un fath â #DiolchIChi?

03) Pwy all gymryd rhan?

04) Pam ddylai fy mhrosiect gymryd rhan?

05) Sut mae'n gweithio?

06) Pa fath o gynnig allaf ei wneud i ymwelwyr?

07) A oes rhaid i mi benderfynu ar fy nghynnig ar unwaith?

08) A allaf newid fy nghynnig yn nes at yr amser os bydd ein sefyllfa'n newid?

09) A fydd angen i ymwelwyr archebu o flaen llaw?

10) Os yw ymwelwyr yn archebu o flaen llaw, a oes angen iddynt barhau i ddod â'u tocyn Loteri Genedlaethol ar y diwrnod o hyd?

11) Sut allaf sicrhau bod fy nghynnig yn llwyddiannus?

12) Sut fydd pobl yn gwybod pa gynigion sy'n digwydd?

13) Pa fath o docyn Loteri Genedlaethol y gallwn ei dderbyn?

14) A all rhywun gael mynediad am ddim os nad oes ganddynt docyn Loteri Genedlaethol?

15) A ddylwn i boeni y byddwn yn cael ein llethu gan ymwelwyr?

16) A allaf roi cyfyngiad ar nifer yr ymwelwyr sy'n manteisio ar fy nghynnig?

17) A fydd yn rhaid i ni wirio bod deiliaid tocynnau dros 18 mlwydd oed?

18) A oes rhaid i ni gadw'r tocyn loteri neu'r cerdyn crafu?

19) A oes angen set o delerau ac amodau arnaf i gymryd rhan yn yr ymgyrch hon?

20) A fyddwn ni'n cael ein had-dalu am unrhyw arian a gollir drwy werthiannau tocynnau / cynnig mynediad am ddim trwy gydol yr ymgyrch?

21) A oes rhaid i mi wneud y cynnig hwn ar gyfer cyfnod cyfan yr ymgyrch?

22) Hoffem gynnal cynnig, ond nid yw'r dyddiadau'n addas i ni. A allwn ni wneud hyn ar amser arall?

23) Pryd ddylwn i ddechrau hyrwyddo fy nghynnig?

24) Fyddwch chi eisiau gwybod pa mor llwyddiannus fu hyn?

# Cwestiynau Cyffredin

## 01) BETH YW WYTHNOS AGORED Y LOTERI GENEDLAETHOL?

Mae'n gyfle i unrhyw sefydliad, bach neu fawr, sydd wedi derbyn arian y Loteri Genedlaethol i ddweud 'diolch yn fawr' i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Diolch i gefnogaeth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae mwy na 690,000 o brosiectau wedi derbyn cyllid gan y Loteri Genedlaethol. Gyda'i gilydd, mae chwaraewyr yn codi £30 miliwn bob wythnos i'w ddosbarthu i achosion da led led y DU.

Mae'n syniad syml: gellir derbyn y cynnig arbennig hwn gan unrhyw ymwelydd sy'n cyflwyno unrhyw docyn Loteri Genedlaethol mewn lleoliad sy'n cymryd rhan.

## 02) A YW WYTHNOS AGORED Y LOTERI GENEDLAETHOL YR UN FATH Â #DIOLCHICHI?

Ydy! Mae Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol wedi esblygu o'r ymgyrch flaenorol, Diolch i Chi. Mae'r syniad yn parhau'r un fath; felly os ydych wedi bod yn rhan o'r ymgyrch #DiolchIChi mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol unrhyw wahanol!

## 03) PWY ALL GYMRYD RHAN?

Gwahoddir unrhyw brosiect, bach neu fawr, ar draws y DU sydd wedi derbyn arian y Loteri Genedlaethol i gymryd rhan. Os ydych chi neu'ch sefydliad wedi derbyn arian y Loteri Genedlaethol, fe fyddem wrth ein boddau petaech yn cofrestru i ddweud 'diolch i chi' i chwaraewyr sydd wedi gwneud yr arian hwn yn bosibl.

## 04) PAM DDYLAI FY MHROSIECT GYMRYD RHAN?

Nid yn unig y mae'n ffordd ystyrlon o ddiolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am eu cefnogaeth, mae'n gyfle gwych hefyd am gyhoeddusrwydd o fewn cyfryngau lleol a chenedlaethol. Bydd y Loteri Genedlaethol yn hyrwyddo'r Wythnos Agored ac yn gyrru ymwelwyr i ganfod mwy am y cynigion sy'n lleol iddynt hwy.

Fel derbynnydd arian y Loteri Genedlaethol, dyma ffordd dda o ddangos i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol lle mae'r arian a godir ym mynd. Dengys ymchwil fod pobl yn fwy tebygol o brynu tocyn Loteri Genedlaethol os ydynt yn gwybod am yr ariannu a sut y defnyddir hyn ar gyfer achosion da - ac mae hynny'n golygu mwy o arian i brosiectau gwych yn y dyfodol. Rydych hefyd yn debygol o ddenu ystod fwy amrywiol o ymwelwyr nag y byddech yn ei gael fel arfer.

# Cwestiynau Cyffredin

Os yw eich sefydliad wedi derbyn arian y Loteri Genedlaethol dros y 30 mlynedd diwethaf, rydych wedi chwarae rhan enfawr wrth wneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl a lleoedd yn eich cymuned leol. Mae Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol yn gyfle gwych i ddiolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol sydd wedi helpu i wneud eich gwaith yn bosibl.

### 05) SUT MAE'N GWEITHIO?

Gall pob prosiect sy'n cymryd rhan gynnal eu cynnig yn y ffordd sy'n gweddu iddynt hwy orau, ac rydym wedi creu pecyn cymorth digidol i wneud yn siŵr fod gennych chi bopeth sydd ei angen arnoch i gymryd rhan. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys rhestr wirio cam wrth gam, yr hyn a ddysgwyd o flynyddoedd blaenorol, ychydig o gyngor ar fesur y defnydd a wneir o'r cynnig a geiriad drafft i'w defnyddio yn eich cyfryngau cyfathrebu.

### 06) PA FATH O GYNNIG ALLAF EI WNEUD I YMWELWYR?

Eich penderfyniad chi yw hynny. Rydym yn cynghori mynediad am ddim neu gynnig 2 am 1 os ydych yn atyniad gyda thâl mynediad; dyma neges hawdd mewn deunyddiau cyhoeddusrwydd a dylai ddenu pobl na fyddai'n ymweld fel arfer.

Ond os ydych eisoes yn lleoliad heb dâl mynediad neu nad ydych yn gallu cynnig mynediad am ddim, gallwch gynnig rhywbeth arall wrth gwrs, e.e. taith y tu ôl i'r llen neu daith gyda thywysydd, neu fag rhoddion ar gyfer y 25 ymwelydd cyntaf i gyrraedd gyda thocyn y Loteri Genedlaethol. Chi sydd i benderfynu.

Ceisiwch sicrhau eich bod yn dynodi manylion eich cynnig yn glir yn unig a'r hyn yr ydych yn ei gynnig o fewn eich deunyddiau hyrwyddo i osgoi siomi
unrhyw ymwelwyr. Edrychwch ar ein hadran 'Ysbrydoliaeth ac Enghreifftiau' i ddarllen mwy am y mathau o gynigion arbennig y mae cyfranogwyr blaenorol yn yr ymgyrch wedi'u cyflwyno i ddiolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am eu cefnogaeth.

### 07) A OES ANGEN I MI BENDERFYNU AR FY NGHYNNIG AR UNWAITH?

Na, rydym yn gwerthfawrogi y gall y pethau hynny gymryd amser i'w cynllunio! Rhowch wybod i ni, fodd bynnag, eich bod yn awyddus i gymryd rhan, felly llenwch y ffurflen gofrestru mor gynnar ag sy'n bosibl. O'r fan honno, fe fyddwch yn gallu mewngofnodi yn ôl i'ch dangosfwrdd i gwblhau neu ddiweddaru manylion eich cynnig yn ddiweddarach. Fe fyddwch yn gallu arbed y manylion hyn ar hyd y ffordd.

# Cwestiynau Cyffredin

## 08) A ALLAF NEWID FY NGHYNNIG YN NES YMLAEN AT YR AMSER OS BYDD EIN SEFYLLFA'N NEWID?

Gallwch. Gallwch ddiwygio eich cynnig gymaint o weithiau ag y byddwch ei angen cyn ei 'gyflwyno' i fynd yn fyw. Unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi ar y dudalen restru, gallwn barhau i wneud newidiadau i'ch cynnig (neu ei ddileu) os oes angen. Rydym yn argymell yn gryf na fyddwch yn newid eich cynnig unwaith y bydd y rhestrau'n fyw neu yn ystod yr Wythnos Agored ei hunan er mwyn cyfyngu ar y posibilrwydd o siomi ymwelwyr.

## 09) A FYDD ANGEN I YMWELWYR ARCHEBU O FLAEN LLAW?

Rydym yn gofyn i brosiectau sy'n cymryd rhan i reoli unrhyw system archebion o flaen llaw eu hunain. Mae hyn yn golygu y gallwch gyfathrebu'n uniongyrchol gyda'ch ymwelwyr os oes angen. Tra bo'r cyhoedd wedi dod yn gyfarwydd gydag archebu o flaen llaw, rydym yn parhau i argymell y gellid amlygu hyn yn amodau a thelerau eich cynnig, ynghyd ag unrhyw gyfarwyddiadau ar sut i archebu - er enghraifft, mewnbynnu cod wrth y ddesg dalu, neu ddolen i dudalen archebu sydd wedi'i sefydlu'n arbennig.

## 10) OS YW YMWELWYR YN ARCHEBU O FLAEN LLAW, A OES ANGEN IDDYNT BARHAU I DDOD Â'U TOCYN LOTERI GENEDLAETHOL AR Y DIWRNOD?

Bydd! Rydym yn awyddus iawn fod ymwelwyr yn parhau i wneud y cyswllt uniongyrchol rhwng chwarae'r Loteri Genedlaethol a'u cefnogaeth tuag at brosiectau achos da, fel eich prosiect chi. Am y rheswm hwn, bydd ein negeseuon yn cyfeirio ymwelwyr i ddangos eu tocyn (digidol neu ffisegol) ar y dydd. Lle y bydd unrhyw gwestiynau yn codi fodd bynnag, gellir datrys hyn ar ddisgresiwn y lleoliad/rheolwr.

## 11) SUT ALLAF SICRHAU BOD FY NGHYNNIG YN LLWYDDIANNUS?

Rydym wedi canfod bod llwyddiant yn dibynnu ar gryfder eich cynnig a pha mor dda rydych chi'n ei hyrwyddo. Bydd gwaith hyrwyddo ar gyfer yr ymgyrch yn cael ei gynnal trwy'r Loteri Genedlaethol, ond yn flaenorol, yr atyniadau aeth ati i hyrwyddo eu cynigion ar-lein, ar gyfryngau cymdeithasol ac o fewn y wasg leol a wnaeth yn wirioneddol dda - mae'n ffordd ragorol hefyd o ddweud eich stori! Fe fyddwn yn cyflwyno ychydig o asedau a chyfarwyddyd i chi er mwyn eich helpu i wneud hyn.

# Cwestiynau Cyffredin

### 12) SUT FYDD POBL YN GWYBOD PA GYNIGION SY'N DIGWYDD?

Bydd yr holl gynigon terfynol yn cael eu rhestru ar NationalLotteryOpenWeek.com, ein tudalen restru sy'n hawdd i ddefnyddwyr ei defnyddio. Bydd pobl yn chwilio'r dudalen hon am gynigion a gynhelir yn agos atynt hwy. Bydd ein holl negeseuon cyfathrebu yn gyrru ymwelwyr at y safle hwn. Pan mae'n fyw, fe fyddwn yn anfon y ddolen atoch fel y gallech ei rhannu gyda'ch sianeli.

### 13) PA FATH O DOCYN LOTERI GENEDLAETHOL Y GALLWN EI DDERBYN?

Mae holl gemau'r Loteri Genedlaethol yn gymwys, gan gynnwys tocynnau ar gyfer unrhyw gêm Loteri Genedlaethol sy'n seiliedig ar dynnu rhifau, Gêm Instant Win neu unrhyw gerdyn crafu'r Loteri Genedlaethol. Gall prawf o docyn fod yn ffisegol ar bapur neu'n ddigidol. Nid yw dyddiad tynnu rhifau neu ddyddiad prynu yn berthnasol. Fe fydd hyn yn cael ei wneud yn eglur fel rhan o amodau a thelerau cyffredinol yr ymgyrch.

### 14) A ALL RHYWUN GAEL MYNEDIAD AM DDIM OS NAD OES GANDDYNT DOCYN LOTERI GENEDLAETHOL?

Mae'r ymgyrch hyrwyddo hon wedi'i hanelu tuag at chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, sy'n cyflwyno tocyn Loteri Genedlaethol neu gerdyn crafu (papur neu ddigidol) fel ffordd o ddefnyddio a manteisio ar eich cynnig. Mewn achos annhebygol lle y byddwch yn dod ar draws unrhyw amharodrwydd oddi wrth bobl i gyflwyno tocyn Loteri er mwyn cael mynediad, chi fydd i benderfynu sut i ddatrys hyn. Pan fo gofyn archebu a chadw lle o flaen llaw, rydym yn awgrymu y gallwch hefyd ofyn i'ch ymwelwyr gyflwyno eu tocyn wrth gyrraedd.

### 15) A DDYLWN I BOENI Y BYDDWN YN CAEL EIN LLETHU GAN YMWELWYR?

Mae ychydig o'r adborth positif ar yr ymgyrch o'r blynyddoedd blaenorol yn dangos fod nifer o gyfranogwyr wedi rhoi adborth am gynnydd boddhaol mewn nifer yr ymwelwyr ar adeg o'r flwyddyn sydd fel arfer yn dawel. Fodd bynnag, os oes gennych bryderon, gallwch ddewis gosod terfyn ar niferoedd, neu ofyn i ymwelwyr archebu a chadw lle o flaen llaw i reoli hyn. Rydym yn argymell eich bod yn gwneud hyn yn eglur yn y manylion a restrir am eich cynnig.

# Cwestiynau Cyffredin

### 16) A ALLAF ROI CYFYNGIAD AR NIFER YR YMWELWYR SY'N MANTEISIO AR FY NGHYNNIG?

Gallwch, chi sydd i benderfynu hyn yn llwyr. Os ydych yn bryderus am niferoedd, gallwch ofyn i ymwelwyr archebu a chadw lle o flaen llaw neu wneud y cynnig ar gael i'r 50 o bobl gyntaf i gyrraedd/cadw lle gyda thocyn Loteri Genedlaethol. Ceisiwch fod yn siŵr eich bod yn nodi unrhyw delerau ac amodau yn glir yn eich cynnig (ac yn ddelfrydol ar eich gwefan) ac o fewn unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo i osgoi siomi unrhyw ymwelwyr.

### 17) A FYDD YN RHAID I NI WIRIO BOD DEILIAID TOCYNNAU DROS 18 MLWYDD OED?

Na, cyfrifoldeb adwerthwr tocynnau'r Loteri Genedlaethol yw sicrhau fod y prynwr dros 18 mlwydd oed, felly ni fydd gofyn i leoliadau wirio oedrannau

### 18) A OES RHAID I NI GADW'R TOCYN LOTERI NEU'R CERDYN CRAFU?

Nag oes. Rhaid dychwelyd y tocyn neu'r cerdyn crafu i'ch ymwelydd.

### 19) A OES ANGEN SET O DELERAU AC AMODAU ARNAF I GYMRYD RHAN YN YR YMGYRCH HON?

Oes, fe fydd angen hyn arnoch, ond does dim angen iddynt fod yn hir na'n gymhleth. Rydym wedi cynnwys yr Amodau a Thelerau safonol i'r ymgyrch o fewn y ffurflen cofrestru cynnig, gyda lle i chi ychwanegu unrhyw delerau sy'n benodol i chi. Mae cyfarwyddyd pellach ar yr Amodau a Thelerau o fewn y pecyn gwybodaeth hwn.

Os ydych dal i fod yn ansicr, anfonwch e-bost atom ar Thankstoyou@lotterygoodcauses.org.uk.

Bydd eich Amodau a Thelerau yn ymddangos yn eich rhestrau cynigion yn awtomatig, ond rydym yn awgrymu eu bod yn ymddangos ar eich gwefan hefyd.

### 20) A FYDDWN YN CAEL EIN HAD-DALU AM UNRHYW ARIAN A GOLLIR TRWY WERTHIANNAU TOCYNNAU /CYNNIG MYNEDIAD AM DDIM TRWY GYDOL YR YMGYRCH?

Rydym yn gwahodd prosiectau sydd wedi derbyn arian y Loteri Genedlaethol i gymryd rhan fel ffordd o ddweud 'diolch yn fawr' i chwaraewyr sydd wedi helpu i godi'r arian hwn. Nid ydym yn gallu cynnig unrhyw ad-daliad ar gyfer y gweithgaredd.

# Cwestiynau Cyffredin

### 21) A OES RHAID I MI WNEUD Y CYNNIG HWN AR GYFER CYFNOD CYFAN YR YMGYRCH?

Chi sydd i benderfynu paramedrau eich cynnig. Mae'r cyfranogwyr sy'n gweld y niferoedd cynulleidfa uwch yn fwy tebygol o fod wedi cynnal eu cynnig dros y cyfnod llawn - ond rydym yn deall na fydd hyn yn bosibl i bawb. Efallai yr hoffech wneud y cynnig ar gael ar gyfer y cyfnod cyfan, rhan o'r wythnos, neu efallai am un diwrnod yn unig. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dynodi'r wybodaeth hon ym manylion eich cynnig (ac yn ddelfrydol ar eich gwefan) ac o fewn deunyddiau allanol a hyrwyddo yn eich cyfryngau.

### 22) HOFFEM GYNNAL CYNNIG, OND NID YW'R DYDDIADAU'N ADDAS I NI. A ALLWN NI WNEUD HYN AR AMSER ARALL?

Fe hoffem weld cymaint o leoedd ag sy'n bosibl yn cymryd rhan yn ystod y Dyddiadau Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol gan y bydd hyn yn ffocws ein holl weithgareddau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus. Rydym, fodd bynnag, yn sylweddoli y bydd rhai cyfranogwyr yn cael cyfyngiadau sy'n benodol i amser ac nid ydym eisiau i chi golli allan. Efallai mai'r hyn yr hoffech ei wneud yw gofyn i bobl gofrestru o fewn cyfnod Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol er mwyn gallu derbyn eich cynnig ar ddyddiad diweddarach sy'n gweithio i chi.

### 23) PRYD DDYLWN I DDECHRAU HYRWYDDO FY NGHYNNIG?

Mae'r rhestr wirio o fewn y pecyn cymorth yn cynnwys rhai o'r 'dyddiadau allweddol'. Cynhelir prif ffocws ein gweithgaredd cyfathrebu sy'n wynebu'r cyhoedd yn ystod y mis yn arwain at yr Wythnos Agored. Byddwn yn darparu deunyddiau i helpu i'ch cynorthwyo gyda hyn. Byddant ar gael drwy'ch dangosfwrdd yn nes at yr amser. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fyddant ar gael.

### 24) FYDDWCH CHI EISIAU GWYBOD PA MOR LLWYDDIANNUS FU HYN?

Ie os gwelwch yn dda! Fe fyddai'n wych gwybod faint o ymwelwyr dderbyniodd eich cynnig, ac fe fyddwn hefyd yn anfon dolen at arolwg i chi fel y gallwch ddweud wrthym ni am eich profiad - yr hyn a weithiodd yn dda a'r ffyrdd y gallwn oll wella ar gyfer y tro nesaf.

Peidiwch ag anghofio cymryd llawer o ffotograffau (yn dangos eich lleoliad yn amlwg) yn ystod eich cynnig a'u postio ar gyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio #DiolchIChi.

# Cwestiynau Cyffredin

### A YDYM WEDI COLLI UNRHYW BETH?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â ni trwy anfon e-bost at ThanksToYou@lotterygoodcauses.org.uk

# Amodau a Thelerau Cynnig

Bydd set safonol o Delerau ac Amodau yn cael eu hychwanegu at eich cynnig pan fyddwch yn uwchlwytho'ch cynnig i wefan Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi eu teilwra ar gyfer eich sefydliad. Gallwch olygu'r rhain fel bo angen i'w defnyddio gyda'ch rhestr cynnig. Dylech hefyd bostio'r rhain ar eich gwefan wrth hyrwyddo'ch gweithgaredd ar gyfer Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol.

### AMODAU A THELERAU CYNNIG

- Bydd [Enw'r Sefydliad] yn cymryd rhan yn Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol gyda chynnig arbennig sef [cynnwys manylion y cynnig].
- Bydd y cynnig hwn yn rhedeg ar [dyddiad(au)].
- Os oes gennych gyfarwyddiadau penodol o ran y dyddiad/amser, dylech eu cynnwys yma. E.e. "Teithiau yn dechrau am 2pm - cyrhaeddwch 10 munud yn gynnar".]
- /Nid yw cadw lle/archebu o flaen llaw yn ofynnol.
- [Os oes angen cadw lle/archebu o flaen llaw, dylech gynnwys y cyfarwyddiadau hynny - dolen cadw lle/archebu, cod, rhif ffôn/e-bost cyswllt ac ati.]
- Bydd un tocyn, cerdyn crafu neu Gêm Instant Win y Loteri Genedlaethol (ffisegol neu ddigidol) yn rhoi mynediad i [faint o bobl all dderbyn y cynnig hwn? [E.e. "un grŵp teulu / un oedolyn ac unrhyw blant sydd gyda hwy / Un person". Mae hyn yn ôl eich disgresiwn chi, ond rydym yn awgrymu cadw'r termau hyn mor syml ag sy'n bosibl.]
- [A oes unrhyw Amodau a Thelerau eraill sy'n benodol i'ch cynnig / prosiect neu leoliad y mae angen i chi eu cynnwys? Mae rhai enghreifftiau wedi'u hamlinellu isod.]

# Amodau a Thelerau Cynnig

- Mae holl gemau'r Loteri Genedlaethol (gan gynnwys gemau tynnu'r Loteri Genedlaethol a chardiau crafu'r Loteri Genedlaethol) a brynir mewn siop/ar-lein/trwy ap yn gymwys i ddefnyddio'r cynnig hwn.
- Gall prawf o brynu gêm y Loteri Genedlaethol fod ar ffurf tocyn copi papur neu ddigidol.
- Nid yw dyddiad tynnu/prynu'r tocyn yn berthnasol.
- Mae'r holl gynigion yn destun argaeledd.
- Mae hawl gan [Enw'r Sefydliad] i wrthod mynediad mewn sefyllfa annhebygol o leoliad/cynnig yn cyrraedd y lefel uchaf/capasiti, ynghyd ag amgylchiadau na ellir eu rhagweld.
- Petai ymholiadau ar y dydd, mae penderfyniad y sefydliad yn derfynol.
- Ni ellir cyfnewid y cynnig hwn.

---

## UNRHYW AMODAU A THELERAU ERAILL?

Meddyliwch a oes unrhyw beth arall y mae angen i chi eu cynnwys fel rhan o'ch Amodau a Thelerau? Er enghraifft:

- • A oes gennych derfyn ar nifer y cynigion sydd ar gael?
- Os felly, faint o leoedd sydd ar gael yn gyfan gwbl neu yn ôl diwrnod?
- Sut fydd y lleoedd hyn yn cael eu dyrannu? Trwy gofrestru o flaen llaw? Neu ar sail y cyntaf i'r felin?
- A ydych angen cynnwys unrhyw wybodaeth am yr hyrwyddwr?
- A ellir defnyddio'r cynnig hwn ar y cyd â hyrwyddiadau eraill? E.e. aelodaeth/gweithgareddau eraill a gynhelir ar y dydd.
- A oes unrhyw beth arall (wedi talu ar ei gyfer/sydd angen ei archebu – er enghraifft, parcio) y mae/nad yw'r cynnig hwn yn ei gynnwys?
- Pan fydd eich ymwelwyr yn cyrraedd, lle ddylen nhw fynd i ddefnyddio eu cynnig? Beth ddylen nhw ddod gyda hwy (e.e. tocyn a/neu gyfeirnod archebu)?

# Offer Terms and Conditions

Gall amodau a thelerau eich cynnig fod yn syml iawn.

Maent yma i helpu eich ymwelwyr i ddeall yr hyn i’w ddisgwyl ar y dydd, ond hefyd i sicrhau bod eich staff a gwirfoddolwyr yn teimlo'n sicr am yr hyn sy'n cael ei gynnwys fel rhan o'r cynnig.

Efallai na fydd y cyfarwyddyd uchod yn trafod popeth sydd angen i chi ei ystyried - ceisiwch fodloni eich hunan fod eich Amodau a Thelerau terfynol yn unol â'ch polisi gweithredu.

Cysylltwch â ni ar Thankstoyou@lotterygoodcauses.org.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau.

# Protocol Canslo

Mae Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol yn dychwelyd yn 2026 ac rydym mor falch y byddwch yn rhan o’r cyffro!

Rydym, fodd bynnag, yn deall y gall amgylchiadau godi lle bydd angen i chi ganslo eich cynnig Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol. I helpu sicrhau na fydd unrhyw un yn cael eu siomi ar y dydd, rydym yn gofyn yn garedig i chi ddilyn y protocol canslo os ydych yn teimlo y bydd angen i chi ganslo eich cynnig o bosibl am unrhyw reswm.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau o ran eich cynnig, cysylltwch â ni ar thankstoyou@lotterygoodcauses.org.uk.

### 1. Rhowch wybod i ni cyn gynted ag sy’n bosibl os ydych angen canslo.

Rhowch wybod i ni cyn gynted ag sy’n bosibl os ydych angen canslo cynnig am unrhyw reswm. Rydym eisiau sicrhau nad oes unrhyw un yn ymweld ar y dydd a’r cynharaf y gellir rhoi gwybod i’r cyhoedd, y gorau.

Eleni, mae Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol 2026 yn cynnwys Sul y Mamau (dydd Sul 15 Mawrth). Os yw’ch cynnig yn eithrio’r dyddiad hwn, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi hyn yn glir yn eich cynnig ar ein gwefan ac yn eich cyfathrebiadau eich hunan.

# Protocol Canslo

### 2. Gwiriwch fod eich cynnig yn gywir cyn i'r Wythnos Agored ddechrau.

Sicrhewch fod yr holl fanylion yn eich cynnig yn gywir. Y pethau allweddol i'w gwirio yw:

• Y dyddiadau y cynhelir eich cynnig
• Beth sydd wedi'i gynnwys yn eich cynnig
• Bod eich amodau a thelerau yn ddiweddar
• Bod lleoliad eich cynnig yn gywir (efallai y bydd angen i chi ddarparu manylion i helpu'r cyhoedd i ddod o hyd i chi os ydych mewn lleoliad sy'n anodd i'w ganfod)

Fe fyddwn yn anfon neges e-bost atgoffa fel y bydd yr Wythnos Agored yn agosáu fel y gallwch wirio eto fod popeth yn gywir yn eich cynnig. Os byddwch yn sylwi ar unrhyw broblemau gyda'ch cynnig a'ch bod yn cael anhawster yn ei ddiwygio, anfonwch e- bost atom ni at ThanksToYou@lotterygoodcauses.org.uk

### 3. Cyfathrebu i'r cyhoedd nad yw eich cynnig yn mynd yn ei flaen bellach.

Os nad yw eich cynnig, yn anffodus, yn gallu mynd yn ei flaen, rydym yn awgrymu:

- Os ydych eisoes wedi derbyn archebion o flaen llaw ar gyfer eich cynnig, eich bod yn cysylltu â'ch ymwelwyr yn uniongyrchol i roi gwybod iddynt nad yw'n gallu mynd yn ei flaen bellach.

- Os oes gennych dudalen 'digwyddiad' neu bost blog Wythnos Agored, a fyddech gystal ag analluogi'r dudalen, neu ei diweddaru gyda rhybudd canslo.

- Efallai eich bod eisoes yn cyfathrebu'r angen i ganslo eich cynnig ar eich sianeli cymdeithasol, ond efallai y byddwch hefyd eisiau dynodi fod hyn yn cynnwys unrhyw archebion o flaen llaw at Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol.

### Cwestiynau?

Cysylltwch â thîm Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol os oes gennych unrhyw gwestiynau. Gallwch anfon e-bost atom ar ThanksToYou@lotterygoodcauses.org.uk.